Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb i adroddiad thematig Estyn o arloesi yn y cwricwlwm mewn ysgolion cynradd

ISBN digidol 978 1 78859 755 5
© Hawlfraint y Goron Mehefin 2018
WG27868

**Teitl yr adroddiad:**

Arloesi yn y cwricwlwm mewn ysgolion cynradd

**Manylion yr adroddiad:**

Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith Ysgrifennydd y Cabinet at Estyn ar gyfer 2016-17. Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yw hwn. Bydd canfyddiadau'r adroddiad a'r astudiaethau achos cysylltiedig hefyd o ddiddordeb i benaethiaid a staff ysgolion cynradd, ac ysgolion uwchradd, pan fyddant yn myfyrio ar eu darpariaeth bresennol o ran y cwricwlwm ac yn cynllunio ar gyfer ei newid.

Mae'r adroddiad yn tynnu ar dystiolaeth o sampl o ysgolion cynradd ac yn rhoi trosolwg o sut mae ysgolion cynradd yn mynd ati ar hyn o bryd i gynllunio, darparu, monitro a mireinio eu cwricwlwm a'u dulliau addysgu.

**Crynodeb o'r prif ganfyddiadau:**

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r rhwystrau rhag newid. Mae'n hefyd yn darparu model hunanwerthuso ar gyfer datblygu'r cwricwlwm.

Mae'r ysgolion yn canolbwyntio ar gynllunio profiadau dysgu sy'n defnyddio chwilfrydedd a chreadigrwydd disgyblion, ac yn cefnogi mentro a dysgu annibynnol.

Maent hefyd yn canolbwyntio ar newid ac arloesi, ac yn darparu cyfleoedd i athrawon wella eu sgiliau drwy addysgeg effeithiol. Ceir arferion hunanwerthuso cryf yn nifer o'r ysgolion ac maent yn gwybod pa agweddau ar yr addysgu a dysgu sydd angen eu newid.

Yn ôl yr adroddiad, mae'r meysydd allweddol sy'n cyfrannu at ethos llwyddiannus mewn ysgol yn cynnwys:

i. datblygu dealltwriaeth gyffredin ac iaith ddysgu gytûn y mae pob un o'r staff yn ei defnyddio i lywio trafodaeth am gysyniadau a gweithgareddau allweddol yn yr ysgol;
ii. annog deialog agored ac uniongyrchol am addysgu ac arfer gyda ffocws cryf ar ei effaith ar ddysgwyr;
iii. datblygu perthnasau proffesiynol cydweithredol a chefnogol o fewn ysgolion a rhyngddynt;
iv. ymgysylltu â thystiolaeth ymchwil ac ymgymryd ag ymchwil;
v. cydnabod cyfrifoldeb ar y cyd am wella;
vi. mabwysiadu diwylliant drws agored dilys mewn ystafelloedd dosbarth sy'n cyfrannu at greu ymddiriedaeth, tryloywder a gonestrwydd ymhlith staff.

| |
|---|
| Mae rhai ysgolion wedi cymryd camau amhendant yn unig o ran datblygu'r cwricwlwm, gan eu bod yn aros am arweiniad a chyfarwyddyd pendant gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae'r rhwystrau rhag newid yn cynnwys cynllunio annigonol o ran y cwricwlwm, datblygu medrau yn anghyson, cydweithio ehangach ar draws ysgolion ac ysgolion arloesi, a pheidio â chynnwys rhieni a'r gymuned yn y gwaith paratoi cychwynnol ar gyfer newid y cwricwlwm. |
| **Argymhellion:**<br><br>Amherthnasol<br>Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw argymhellion. Mae er gwybodaeth yn unig. |
| **Manylion cyhoeddi:**<br><br>Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ar wefan Estyn ar 17 Mai 2018: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig. |